

Presennol

Y Cyngorydd DRW Lewis – Cadeirydd

MJ Kearn

AA Pucella

G Thomas

JE Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

TH Beedle

Swyddogion:

Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau
Andrea Lee	Uwch Cyfreithiwr
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democraidd – Pwyllgorau
Yvonne Witchell	Rheolydd Tîm Trwyddedu

272. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

273. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD:

Bod cofnodion 13 Hydref 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

274. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HACNI

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr y Tîm (Trwyddedu) a'i ddiben oedd gofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hacni.

Esboniodd fod cais wedi'i gyflwyno gan Peyton Travel Limited o Ben-y-bont ar Ogwr, i drwyddedu Dacia Logan Stepway, rhif cofrestredig WP86 LVD, fel cerbyd hacni i eistedd 4 person.

Mae'r cerbyd yn un ail law ac fe'i cofrestrwyd gyntaf gan y DVLA ar 11 Ionawr 2019.

Aeth y Rheolwr Tîm (Trwyddedu) ymlaen, drwy gynghori bod y cais y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hacni a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Cyflwynwyd adroddiad gwasanaeth ar gyfer 14 Chwefror 2020, pan gofnodwyd 12,301 milltir ar y cloc.

Ar 3 Tachwedd 2020, archwiliodd Swyddog Gorfodi'r cerbyd a gwelwyd ei fod mewn cyflwr da. Darparwyd Ffurflen Asesu Cerbydau yn Atodiad A i'r adroddiad. Ar adeg yr adolygiad, cofnodwyd 19,187 milltir ar y cloc.

Roedd y cais y tu allan i ddarpariaethau Polisi Trwyddedu'r Cyngor, am y rhesymau a nodir ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

PENDERFYNWYD:

Ystyriodd yr Is-Bwyllgor y cais i gofrestru WP86 LVD fel cerbyd hacni i eistedd 4 person.

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) - DYDD MAWRTH, 8 RHAGFYR 2020

Nododd yr Aelodau nad yw'n cael ei gynnwys o fewn polisi 2.1 o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad.

Nododd yr Aelodau y gellid llacio'r polisi, fel y nodir ym mharagraff 2.2 o'r polisi, os yw'r cerbyd o ansawdd eithriadol y tu mewn a'r tu allan, a bod y safonau diogelwch yn eithriadol. O'r herwydd, rhoddodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

275. **EITEMAU BRYD**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:30